# Y PWYLLGOR ARCHWILIO
# 27 MAWRTH 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Clwyd, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Mercher 27 Mawrth 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Helen Brown (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Geoff Collett, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, Paul Johnson ac Arnold Woolley
Aelodau Cyfetholedig: Sally Ellis

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Billy Mullin a Patrick Heesom yn bresennol fel arsylwyr.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Rheolwr yr Adain Archwilio Mewnol, Rheolwr Cyllid Corfforaethol; a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd.

Rheolwr Cyllid Dros Dro (Cyfrifeg Dechnegol) - ar gyfer cofnodion rhif 58 a 59

Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol - ar gyfer cofnod rhif 61

Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru
Mike Whiteley a Gwilym Bury

## 55. AELODAETH

Dywedodd y Prif Swyddog fod y Cynghorydd Axworthy yn cymryd lle'r Cynghorydd Holgate ar y Pwyllgor ar hyn o bryd a'i bod wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol.

## 56. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 57. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 58. DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLI TRYSORLYS 2018/19

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Dros Dro (Cyfrifeg Dechnegol) y diweddariad chwarterol ar faterion yn ymwneud â Pholisi, Strategaeth ac Arferion Rheoli Trysorlys y Cyngor 2018/19 hyd at ddiwedd Chwefror 2019.

Roedd y diweddariad yn adlewyrchu'r strategaeth bresennol ar fenthyca a oedd dan adolygiad parhaus gan yr oedd disgwyl i gyfraddau llog godi'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Roedd newidiadau posibl i gyfraddau credyd banciau'r DU yn cael eu monitro yn unol â'r canllawiau gan ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys. Roedd gwybodaeth fanwl hefyd wedi'i darparu ar y paratoadau ar gyfer proses Brexit yn cynnwys cynllun gweithredu i reoli'r tri maes risg allweddol os bydd 'dim cytundeb'.

Gofynnodd Sally Ellis am effaith oedi pellach o ran Brexit. Manylodd y Rheolwr Dros Dro ar y prif risg mewn perthynas â diogelwch a hylifedd buddsoddiadau, a bod y Cyngor yn cynnal ei sefyllfa bresennol nes oedd rhagor o eglurder o ran cwblhad Brexit. Ar ôl derbyn cyngor proffesiynol, roedd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd yn cydnabod y risgiau posibl i'r farchnad a oedd yn ffurfio rhan o'i weithgareddau rheoli risg ehangach ac roedd yn fodlon y byddai'r sefyllfa reoleiddio yn cael ei chynnal hyd at gasgliad trafodaethau ar ôl Brexit.

Siaradodd y Prif Weithredwr am y gwahaniaeth rhwng perfformiad y farchnad yn hytrach na diogelwch buddsoddiadau heb unrhyw gyngor cenedlaethol hyd yma. Byddai'r ddwy risg yn parhau ar wahân i oedi pellach.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Johnson, dywedodd y Prif Weithredwr, yn absenoldeb cyngor cenedlaethol i sefydliadau'r sector cyhoeddus, gallai'r Cyngor ond cynllunio o fewn ei gylch gwaith i reoli risgiau y gorau y medrai. Roedd hyn yn cynnwys adolygu cynlluniau parhad busnes ar gyfer gwasanaethau a allai gael eu heffeithio gan Brexit, gwahanu risgiau tymor hir a thymor byr, gan nodi nad oedd disgwyl unrhyw newid sylweddol i farchnadoedd ariannol.

Dywedodd y Prif Swyddog fod yr adolygiadau hyn wedi nodi nifer fechan o risgiau penodol a chyffredin, yn ymwneud â chyflenwyr yn bennaf.

Wrth gyfeirio at seminar Llywodraeth Cymru ddiweddar, mynegodd y Cynghorydd Johnson ei ddiolch i bawb a oedd yn gweithio i baratoi ar gyfer Brexit.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Dunbobbin, dywedodd y Prif Weithredwr fod ffocws Brexit ar yr effaith ar gymunedau, busnesau a'r gweithlu ac y byddai'n rhaid datrys yr effaith economaidd ar lefel Lywodraethol. Er bod Llywodraeth Cymru'n agored i drafodaethau, roedd gormod o ffactorau anhysbys yn y cam hwn o'r broses.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r diweddariad chwarterol ynglŷn â Rheoli'r Trysorlys yn 2018/19.

## 59. CYNLLUN ARCHWILIO SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU 2019

Cyflwynodd Mr Mike Whiteley Gynllun Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru 2019 a oedd yn nodi'r trefniadau a'r cyfrifoldebau ar gyfer y gwaith archwilio arfaethedig ar gyfer y Cyngor.

Wrth grynhoi'r prif bwyntiau, tynnodd sylw at y risgiau archwiliad ariannol allweddol ar reolwyr yn diystyru rheolyddion fel risg gyffredinol, amcangyfrifiadau sylweddol a oedd yn gymhleth o ran eu natur ac yn amodol ar ddyfarniadau a chyflwyniad safonau cyfrifeg newydd lle'r oedd deialog agored gyda swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r paratoadau. Nid oedd newid arfaethedig i'r ffioedd archwilio a oedd yn cynnwys gwaith ar y Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y Cynllun Archwilio yn nodi'r rheolyddion a oedd ar waith i liniaru'r bygythiad annibynnol posibl a nodwyd ym mharagraff 30. Gwerthfawrogwyd y Swyddogion Cyllid am gynorthwyo cydweithwyr Swyddfa Archwilio Cymru â chyflawni'r gwaith yn unol â'r amserlen arfaethedig.

Yn ystod trosolwg o'r rhaglen archwilio perfformiad, tynnodd Mr Gwilym Bury sylw at feysydd cyffredin megis cynaliadwyedd ariannol ar draws cynghorau Cymru a gwaith penodol ar leihau ôl-ddyledion rhent yn dilyn newidiadau diwygio'r gyfundrefn les a oedd yn broblem benodol ar gyfer Sir y Fflint. Rhoddwyd diweddariad hefyd ar statws y gwaith archwilio perfformiad parhaus o amlinelliad archwiliad y flwyddyn flaenorol.

Wrth drafod y rhaglen archwilio perfformiad, siaradodd y Prif Weithredwr am symud y ffocws ar faterion lleol a'r cynnig arfaethedig i gael gwared ar rwymedigaethau'r cyngor dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Croesawyd y gwaith archwilio ar ôl-ddyledion rhent i dynnu sylw at ffactorau sy'n cyfrannu a byddai'r prosiect ar Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Tŷ yn darparu adborth annibynnol ar ansawdd mynediad. Roedd protocol mewnol y Cyngor (fel nodwyd mewn eitem ddiweddarach yn y rhaglen) yn darparu mecanwaith ar gyfer rhoi gwybod am ganlyniadau adroddiadau rheoleiddio.

Wrth drafod y rhaglen archwilio ariannol, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y byddai gofynion y terfyn amser statudol cynharach yn cael eu cwrdd yn dilyn y paratoadau a roddwyd ar waith y llynedd. O ran y risgiau a nodwyd yn flaenorol, cyflwynodd y wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau pontio o fewn y tîm cyn dychweliad y Rheolwr Cyllid. Cydnabuwyd cyfraniadau'r Rheolwr Cyllid Dros Dro yn ystod y cyfnod hwn gan y Prif Weithredwr ac Aelodau'r Pwyllgor a groesawodd ei benodiad i weithio ar gyfrifon Cronfa Bensiynau Clwyd.

Soniodd y Cynghorydd Dunbobbin am y dyletswyddau a osodwyd ar y Cyngor gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ystod adeg o galedi ariannol. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r gwaith cenedlaethol ar gynaliadwyedd ariannol yn tynnu sylw at y cyfrifoldebau ar Lywodraeth Cymru a oedd ei hun yn ddarostyngedig i rwymedigaethau'r un ddeddfwriaeth.

Cwestiynodd y Cynghorydd Dolphin a oedd y ffi archwilio yn cynrychioli gwerth am arian gan na allai barn Swyddfa Archwilio Cymru roi sicrwydd llwyr. Esboniodd Mr Whiteley fod y dull i asesu risg ar waith sampl yn arfer safonol ar gyfer archwilwyr allanol ac nad oedd modd rhoi sicrwydd llwyr heb asesu pob trafodyn unigol.

Nododd y Prif Swyddog fod y ffi archwilio yn ffafriol o'i chymharu â chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru, gellid priodoli hyn i ansawdd y gwaith a gynhaliwyd gan y timau Cyllid ac Archwilio Mewnol. Dywedodd y Prif Weithredwr

fod y ffioedd archwilio yn darparu gwerth am arian ac wedi bod yn sefydlog am beth amser a bod partneriaeth waith gadarnhaol rhwng y Cyngor a Swyddfa Archwilio Cymru.

Gofynnodd Sally Ellis am y dull i wneud y mwyaf o ganlyniadau o waith gan yr Adain Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru ar ddyledion rhent a'r Strategaeth Ddigidol. Dywedodd Rheolwr yr Adain Archwilio Mewnol y byddai cwmpas yr adolygiadau yn cael ei gytuno ymlaen llaw er mwyn osgoi dyblygu gwaith a darparu gwerth ar gyfer y gwasanaethau hynny. Wrth groesawu'r gwaith, dywedodd y Prif Swyddog y byddai'r prosiect digidol yn canolbwyntio ar yr elfennau cyflawnadwy oherwydd y cymhlethdodau a oedd yn gysylltiedig.

Cytunodd Rheolwr yr Adain Archwilio Mewnol i nodi canlyniadau adroddiadau rheoleiddio yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol pan yn derfynol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

## 60. TYSTYSGRIF GRANTIAU A FFURFLENNI 2017/18

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar ardystiad hawl grant ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2018.

Er nad oedd y canfyddiadau yn cyflwyno risg fawr i berfformiad, nid oeddent yn adlewyrchu'r safonau a ddisgwyliwyd ac roedd swyddogion yn parhau i weithio'n agos â Swyddfa Archwilio Cymru i wella ansawdd hawliau. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y cynllun gweithredu manwl a byddai'r adroddiad yn cael ei rannu â'r Grŵp Llywodraethu Cyfrifon a Phrif Swyddogion i sicrhau perchnogaeth a chamau gweithredu. Wrth ddarparu cyd-destun, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod yr addasiad net o £11,151 i hawliadau yn gyfran fechan o gyfanswm cyffredinol y grantiau sef £129m heb unrhyw golled ariannol i'r Cyngor.

Wrth grynhoi'r pwyntiau allweddol, soniodd Mr Mike Whiteley o Swyddfa Archwilio Cymru, am y dirywiad bychan o ran perfformiad lle'r oedd hanner yr hawliadau a archwiliwyd yn gymwys a chydnabu fod lle i wella. Roedd y lleihad o ran nifer yr hawliadau grant ar gyfer y cyfnod o ganlyniad i gyflwyniad y Crynodeb Sengl o Grantiau Llywodraeth Cymru a gwnaethpwyd llawer iawn o gamgymeriadau arno (yn ychwanegol at broblemau Llywodraeth Cymru â'r canllawiau a'r templed). Dywedodd Mr Whiteley fod hyn yn siomedig gan fod prosesau a pherfformiad y Cyngor yn gadarn yn gyffredinol, ac awgrymodd fod y trefniant newydd efallai wedi achosi dryswch. Dosbarthodd grynodeb diwygiedig o ganlyniadau'r gwaith ardystio oherwydd problemau fformatio ar yr adroddiad cyhoeddiedig. Roedd yr argymhellion wedi'u derbyn gan y rheolwyr ac roedd timau'n gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i roi'r camau gweithredu ar waith.

Wrth ddiolch i gydweithwyr Swyddfa Archwilio Cymru am yr adroddiad, dywedodd y Prif Weithredwr er nad oedd y materion unigol yn bwysig, ar y cyd roeddent yn peri pryder. Roedd gwaith wedi dechrau ar y camau gweithredu cytunedig a byddai'n cael ei fonitro.

Cadarnhaodd Rheolwr yr Adain Archwilio Mewnol fod adolygiad o Grantiau Corfforaethol wedi'i gynnwys yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2019/20.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi cynnwys adroddiad Ardystiad Hawl Grant ar gyfer 2017/18.

## 61. SICRWYDD RHEOLEIDDIO ALLANOL

Cyflwynodd Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol yr adroddiad cryno i roi sicrwydd bod adroddiadau gan reoleiddwyr ac arolygwyr allanol yn 2017/18 wedi cael eu hystyried gan y pwyllgorau perthnasol a bod camau gweithredu wedi'u cymryd mewn ymateb i argymhellion. Roedd hyn yn unol â'r protocol adrodd mewnol cytunedig a oedd yn cael ei rannu.

Ar wahân i un adroddiad lleol heb unrhyw argymhelliad, roedd y gweddill yn adroddiadau cenedlaethol yn dangos ymateb y Cyngor ochr yn ochr ag unrhyw argymhelliad generig.

Siaradodd y Prif Weithredwr am arfer gadarnhaol y Cyngor o ddefnyddio adroddiadau cenedlaethol i ychwanegu gwerth. Dywedodd Mr Gwilym Bury fod trefniadau tebyg ar waith yng Ngogledd Cymru er nid o reidrwydd ar draws Gymru.

Cyfeiriodd Sally Ellis at yr adroddiadau ar ddigartrefedd a Grantiau Cyfleusterau I'r Anabl a gofynnodd a oedd cynnydd ar yr argymhellion yn cyflawni canlyniadau ar gyfer preswylwyr Sir y Fflint. Gofynnodd y Prif Weithredwr fod Sally yn derbyn yr adroddiadau diweddar yn dangos perfformiad da yn y ddau faes.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi sut yr ymdriniwyd ag adroddiadau gan archwilwyr allanol, rheoleiddwyr ac archwilwyr eraill yn ystod 2017/18.

## 62. CYNLLUN STRATEGOL ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd Rheolwyr yr Adain Archwilio Mewnol y Cynllun Strategol Archwilio Mewnol o 2019/20 i 2021/22. Manylwyd ar y dull i ddatblygu'r Cynllun, yn cynnwys ymarfer mapio sicrwydd ac ymgynghoriad â Phrif Swyddogion. Roedd y Cynllun yn amodol ar amrywiad ac adolygiad, gydag archwiliadau ac adolygiadau blaenoriaeth uchel wedi'u blaenoriaethu ar gyfer 2019/20.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Cynllun Strategol Archwilio Mewnol Sir y Fflint 2019-2022.

## 63. CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS 2018/19

Cyflwynodd Rheolwr yr Adain Archwilio Mewnol ganlyniadau'r asesiad mewnol blynyddol o gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Nododd canlyniad yr hunanasesiad mewnol 2018/19 a'r asesiad allanol 2016/17 (drwy adolygiad gan gymheiriaid) gydymffurfiaeth cyffredinol. Roedd y rhaglen ar gyfer asesiad allanol ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn cael ei datblygu.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 64. ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd Rheolwr yr Adain Archwilio Mewnol y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd yn yr adain Archwilio Mewnol, gan gynnwys newidiadau yn y cynllun archwilio, olrhain camau gweithredu ac ymchwiliadau.

Nid oedd unrhyw adroddiad sicrwydd cyfyngedig (coch) wedi'i gyflwyno ers y cyfarfod diwethaf. Yn dilyn cais yng nghyfarfod briffio'r Cadeirydd, byddai'r adolygiadau gyda sicrwydd Coch a Melyn / Coch yn cael eu nodi ar y crynodeb cyffredinol o farn (Atodiad C) mewn adolygiadau yn y dyfodol. Roedd y pryderon ynglŷn â'r ymatebion gohiriedig i olrhain camau gweithredu wedi'u codi gyda Phrif Swyddogion, ac wedi cael effaith gadarnhaol ar y ffigyrau; byddai hyn yn parhau i gael ei fonitro.

O ran adnoddau, hysbyswyd y Pwyllgor am ymddeoliad Prif Archwilydd o'r Adain Archwilio Mewnol a oedd yn agosáu.

Siaradodd y Prif Weithredwr am werth y gwaith cynghorol a wnaed gan y tîm yn ychwanegol i'r gwaith craidd, er enghraifft, darparu gwiriad annibynnol ar gywirdeb datganiadau dull a rhagdybiaethau a oedd o gymorth i ddarparu sicrwydd ychwanegol ar faterion cymhleth.

Diolchodd Sally Ellis i'r swyddog am nodi pwysigrwydd Prif Swyddogion yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am olrhain camau gweithredu. Cyfeiriodd at yr heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio uwch archwilwyr a gofynnodd am y capasiti o fewn y tîm. Darparodd Rheolwr yr Adain Archwilio Mewnol eglurhad ar y broses recriwtio hyd yma a'r opsiynau sydd ar gael. Caniatawyd ar gyfer y swydd wag yn y Cynllun Archwilio hyd at fis Gorffennaf a byddai'r sefyllfa yn cael ei monitro wedi hynny a byddai unrhyw bryder yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod heriau o ran recriwtio ar draws y sector proffesiynol yn gyffredinol, yn golygu bod cynllunio ar gyfer olyniaeth yn risg gynyddol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Johnson, dywedodd Rheolwr yr Adain Archwilio Mewnol fod gweinyddu pensiynau yn rhan o waith archwilio a oedd yn darparu sicrwydd pellach i Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd.

Siaradodd y Prif Weithredwr am yr adnoddau cynyddol o fewn y tîm Pensiynau i ymateb i newidiadau cymhleth a’r gofynion statudol newydd.

O ran caffael, cyfeiriodd y Prif Swyddog at y mesurau a gyflwynwyd ar y gofrestr gontract i ddarparu rheolyddion a chydymffurfiad, a'r archwiliad dilynol ar reoli contractau i sicrhau bod y system yn cael ei defnyddio’n effeithiol.

Mynegodd y Cynghorydd Dolphin bryderon am rai o'r rhesymau a roddwyd dros gamau gweithredu gohiriedig ac fe dynnodd sylw at bwysigrwydd gosod terfynau amser realistig, er enghraifft gyda Gorfodi Cynllunio, lle’r oedd o’r farn bod angen adnoddau ychwanegol i gyflawni’r llwyth gwaith. Wrth gydnabod y rhesymau amrywiol dros ohirio camau gweithredu, dywedodd y Prif Weithredwr fod y rhai a oedd yn gysylltiedig â Gorfodi Cynllunio ar y gweill ac roedd arnynt angen datrysiad hirdymor tra bo Dyffryn Maes Glas yn ymwneud â mater y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr adroddiad.

## 65. CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd Rheolwr yr Adain Archwilio Mewnol adroddiad i ystyried cyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio yn dilyn trafodaeth yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a Chyfansoddiad. Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu’r trefniadau aelodaeth presennol a’r cyfraniadau gwerthfawr a wnaed gan yr aelodau lleyg presennol a blaenorol yn gwasanaethu ar y Pwyllgor. Byddai’n rhaid i unrhyw benderfyniad i newid maint aelodaeth a / neu gynyddu nifer yr aelodau lleyg gael ei wneud drwy argymhelliad i’r Cyngor Sir i’w benderfynu yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Dywedodd y Prif Swyddog y byddai’n rhaid i faint y Pwyllgor fod yn gymesur â’r gwaith a wneir a natur y cwestiynau yn y cyfarfodydd ac argymhellodd ei bod yn haws cyflawni hyn drwy gadw nifer yr aelodau yn isel. Er y byddai’n rhaid i’r Pwyllgor fod yn gytbwys yn wleidyddol, byddai unrhyw newid i gynrychioli pob grŵp gwleidyddol yn golygu cynnydd i un ar ddeg (neu ddeg o bosib) o gynghorwyr. Wrth drafod goblygiadau o ran adnoddau, eglurwyd mai’r hawl tâl ar gyfer aelod lleyg oedd £99 fesul cyfarfod yn hytrach na £128 a oedd yn berthnasol i aelod lleyg yn cadeirio cyfarfod.

Siaradodd y Cynghorydd Dolphin am yr effaith gadarnhaol gan yr aelod lleyg presennol ac awgrymodd y byddai aelod lleyg ychwanegol hefyd yn fanteisiol. Er lles tegwch, dywedodd y dylai pob grŵp gwleidyddol gael ei gynrychioli ac awgrymodd y byddai modd gwneud hyn drwy gynnig sedd y grŵp lleiaf (ei grŵp ei hun ar hyn o bryd) i’r Grŵp Annibynnol newydd.

Dywedodd y Cynghorydd Johnson fod y Pwyllgor eisoes yn weddol gytbwys rhwng y grwpiau llywodraethol a’r grwpiau gwrthwynebol. Dywedodd bod aelodaeth lai yn gyffredinol yn caniatáu i bawb sy’n bresennol gyfrannu, a siaradodd o blaid aelod lleyg ychwanegol pe bai unrhyw newid yn cael ei wneud.

Roedd y Cynghorydd Dunbobbin yn cytuno â'r Cynghorydd Johnson, gan fod y cyfarfodydd yn agored i Aelodau eraill eu harsylwi os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Nid oedd yn credu y byddai cynyddu nifer y cynghorwyr yn ychwanegu gwerth at y Pwyllgor.

Yn dilyn ei sylwadau blaenorol, cynigodd y Cynghorydd Dolphin y dylid penodi'r grŵp nad oedd wedi'i gynrychioli ar y Pwyllgor ar hyn o bryd yn lle'r grŵp lleiaf, gydag aelod lleyg ychwanegol os y cytunwyd ar hynny.

Ar y sail hon, awgrymodd y Prif Weithredwr y dylai'r cynnig i'w argymell i'r Cyngor nodi bod nifer y cynghorwyr yn aros yr un fath ac y dylid cylchdroi aelodaeth er mwyn caniatáu i bob grŵp gwleidyddol gymryd rhan, a phenodi ail aelod lleyg. Byddai'r trefniadau cylchdroi yn cael eu cytuno ag Arweinwyr Grŵp.

Cynigiwyd hyn yn ffurfiol gan y Cynghorydd Johnson ac eiliwyd gan y Cynghorydd Dunbobbin. O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd hyn.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn dymuno argymell i'r Cyngor, drwy Gyfarfod Blynyddol y Cyngor, y dylid cadw nifer y cynghorwyr ar y Pwyllgor Archwilio a chylchdroi aelodaeth er mwyn caniatáu i bob grŵp gwleidyddol gymryd rhan. Hefyd y dylid recriwtio aelod lleyg ychwanegol.

## 66. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd Rheolwr yr Adain Archwilio Mewnol yr adroddiad diweddariad ar gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol, roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi'u cwblhau neu ar y gweill.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr adroddiad.

## 67. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Wrth gyflwyno'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried, dywedodd Rheolwr yr Adain Archwilio Mewnol nad oedd unrhyw newid wedi'i wneud ers y cyfarfod diwethaf. Byddai'r eitemau ar adroddiadau Grantiau Corfforaethol a Swyddfa Archwilio Cymru a drafodwyd yn ystod y cyfarfod yn cael eu trefnu.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Derbyn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd; ac

(b) Awdurdodi Rheolwr yr adran Archwilio Mewnol, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**68. <u>PRESENOLDEB AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD</u>**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.35am

……………………………………..

**Y Cadeirydd**